OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 2988

## Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006

**Dehongli addasiadau**

**4.**—(1) Mae'r diffiniadau a geir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn (sy'n ailadrodd diffiniadau a geir yn Erthygl 1 o'r Gyfarwyddeb) yn gymwys at ddiben dehongli'r addasiadau a wneir i Ran 2A gan y Rheoliadau hyn.

(2) Yn y rheoliad hwn ac yn yr Atodlen, ystyr “the Directive” yw Cyfarwyddeb y Cyngor 96/29/Euratom(**1**), sy'n gosod safonau diogelwch sylfaenol ar gyfer diogelu iechyd gweithwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol rhag y peryglon sy'n deillio o ymbelydredd ïoneiddio ac, at ddibenion yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn, mae i “this Directive” yr un ystyr.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn at “Article” neu “Title” â Rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Teitl sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y Gyfarwyddeb.

(**1**) OJ Rhif L159, 29.06.1996, t.1.